OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 663 (Cy.76)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 25(7) o Ddeddf Plant 1989(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ebrill 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio rheoliad 6 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991**

**2.** Yn rheoliad 6(1) o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991(**2**) (plant sy'n cael eu cadw'n gaeth ac sydd wedi eu remandio y bydd adran 25 o Ddeddf Plant 1989 yn cael effaith mewn perthynas â hwy yn ddarostyngedig i addasiadau)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "children" lle y mae'n ymddangos am y tro cyntaf, mewnosoder "aged 12 or over but under the age of 17";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (a) hepgorer ", and"; ac

(c) hepgorer is-baragraff (b).

(**1**) Mae'r awdurdod cenedlaethol priodol y cyfeirir ato yn adran 25(7) wedi ei ddiffinio gan adran 30A o Ddeddf Plant 1989 fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1991/1505. Diwygiwyd rheoliad 6 o O.S. 1991/1505 gan O.S. 1992/2117 ac O.S. 2012/2824.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991 ("Rheoliadau 1991") ac fe'u gwneir mewn cysylltiad â'r newidiadau i'r fframwaith remánd ar gyfer plant a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae'r addasiadau i'r meini prawf sy'n gymwys i leoli plentyn a gafodd ei gadw'n gaeth gan yr heddlu o dan adran 38(6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("PACE") wedi eu gwneud er mwyn sicrhau bod y dull o weithredu o ran lleoliadau o'r fath yn gyson â'r dull o weithredu mewn perthynas â phlant sydd wedi eu remandio i lety awdurdod lleol.

O ganlyniad i'r diwygiadau bydd y meini prawf a osodwyd yn adran 25(1) o Ddeddf Plant 1989 bellach yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniad gan awdurdod lleol i leoli plant o'r categorïau a ganlyn mewn llety diogel:

(a) plant sy'n 10 neu'n 11 oed ac sydd wedi eu cadw'n gaeth o dan adran 38(6) o PACE, a

(b) plant sydd wedi eu remandio i lety awdurdod lleol ac sydd naill ai wedi eu cyhuddo, neu wedi eu collfarnu, o drosedd dreisgar neu rywiol neu drosedd y gellir ei chosbi yn achos oedolyn â charchar am gyfnod o 14 o flynyddoedd neu fwy, neu sydd â hanes diweddar o ddiengyd tra eu bod wedi eu remandio i lety awdurdod lleol ac sydd wedi eu cyhuddo, neu eu collfarnu, o drosedd garcharol yr honnir neu y canfyddir ei bod wedi ei chyflawni tra eu bod ar remánd.

Bydd y meini prawf wedi eu haddasu a nodir yn rheoliad 6(2) o Reoliadau 1991 yn parhau i fod yn gymwys i blant sy'n 12 oed neu drosodd ond sydd o dan 17 oed ac sydd wedi eu cadw'n gaeth gan yr heddlu o dan adran 38(6) o PACE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.